Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn y Gymru ddatganoledig: amserlen o ddatblygiadau llywodraeth leol

## Briffio Ymchwil

Medi 2018



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6296**
E-bost: **Osian.Bowyer@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn y Gymru ddatganoledig: amserlen o ddatblygiadau llywodraeth leol

## Briffio Ymchwil

Medi 2018

**Awduron:**
Osian Bowyer

**Trosolwg o'r papur:**
Mae ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru wedi bod yn destun dadl ers tro. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf, mae'r ddadl wedi dwysáu, gyda dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn cadw'r model presennol o 22 o awdurdodau lleol. Mae'r papur ymchwil hwn yn darparu amserlen o'r datblygiadau allweddol mewn diwygio llywodraeth leol dros y blynyddoedd diwethaf.

# Contents

**Cyflwyniad ........................................................................................ 1**

Y cyd-destun hanesyddol ........................................................................ 1

Y cyd-destun gwleidyddol ........................................................................ 2

**Amserlen o ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol ................ 5**

Cyn datganoli ........................................................................................ 5

Y Cynulliad Cyntaf (1999-2003) ............................................................ 5

Yr Ail Gynulliad (2003-2007) ................................................................ 6

Y Trydydd Cynulliad (2007-2011) .......................................................... 8

Y Pedwerydd Cynulliad (2011-2016) ..................................................... 10

Y Pumed Cynulliad (2016- ) .................................................................. 17

**Lincs a darllen pellach ............................................................ 21**

# Crynodeb

Sefydlwyd y strwythur llywodraeth leol presennol ym 1996, ac mae'r ddadl ynghylch pa mor effeithiol a chynaliadwy yw'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol wedi parhau ers hynny.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru nifer o Gomisiynau ac adroddiadau yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, gan gynnwys 'adolygiad Beecham' i wasanaethau cyhoeddus, 'adolygiad Simpson' ar ba wasanaethau sy'n cael eu darparu orau ac ym mhle, a 'Chomisiwn Williams' ar ddarparu a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus. Yn dilyn argymhellion 'Comisiwn Williams' yn benodol, ceisiodd Llywodraeth Cymru symud yr agenda newid yn ei blaen. Cyflwynwyd Bil drafft yn y Pedwerydd Cynulliad a fyddai'n paratoi'r ffordd ar gyfer uno awdurdodau lleol, i roi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol a newid swyddogaethau cynghorau a'u Haelodau.

Fodd bynnag, yn sgil etholiad y Cynulliad yn 2016, ni aeth y Bil yn ei flaen. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Bapur Gwyn a fyddai wedi cadw'r ôl troed presennol o 22 o awdurdodau, ond gyda gweithio rhanbarthol wedi'i fandadu, ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi troi'n ôl at bolisi sy'n canolbwyntio ar leihau nifer yr awdurdodau lleol – gan ymgynghori'n fwyaf diweddar ar Bapur Gwyrdd a oedd eto'n cynnig rhaglen o uno. Yn ogystal â diwygio strwythurol, mae'r Pumed Cynulliad wedi gweld cynigion ar gyfer diwygio etholiadol ac ariannol mewn awdurdodau lleol. Mae'r papur ymchwil hwn yn darparu amserlen o'r datblygiadau allweddol yn yr hanes o ddiwygio llywodraeth leol hyd yma.

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi amlinelliad cryno o'r datblygiadau llywodraeth leol allweddol yng Nghymru dros y blynyddoedd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y cyfnod ar ôl datganoli.

## Y cyd-destun hanesyddol

Yn ystod llawer o'r ugeinfed ganrif, roedd llywodraeth leol yng Nghymru yn seiliedig ar system o gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau dosbarth trefol a chynghorau ardal wledig etholedig.

Roedd y system hon ar waith o hyd tan 1974, pan grëodd ad-drefniad mawr strwythur llywodraeth leol dwy haen, yn cynnwys wyth cyngor sir a 37 o gynghorau dosbarth. Byddai'r ddwy haen yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol penodol yn eu hardaloedd.

Erbyn 1996, roedd Llywodraeth y DU yn pryderu bod y model darparu gwasanaeth dwy haen yn aneffeithlon, a arweiniodd at ad-drefnu pellach. Crëwyd haen sengl o 22 o awdurdodau unedol a fyddai'n darparu'r holl brif wasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae **Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994** yn cyfeirio at awdurdodau fel 'prif ardaloedd'. Er eu bod yn cael eu hystyried yn wahanol fel 'siroedd' neu 'fwrdeistrefi sirol', mae ganddynt yr un pwerau ac maent yn aml yn cael eu disgrifio'n unffurf fel 'cynghorau' neu 'awdurdodau lleol'. Ynghyd â haen is o gynghorau cymuned a'r awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol, maent yn ffurfio strwythur llywodraeth leol Cymru.[1]

Ar gyfer 2018-19, mae awdurdodau unedol yng Nghymru yn cyllidebu i wario tua £8.6 biliwn mewn gwariant cyfalaf a refeniw.[2] Darperir y mwyafrif o gyllid refeniw cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a thrwy ardrethi busnes a ailddosberthir. Mae hyn yn cyfateb i tua 75 y cant o gyllideb awdurdod lleol. Caiff y gweddill ei gasglu drwy'r dreth gyngor a ffioedd a ffrydiau incwm eraill. Hefyd, gall awdurdodau unedol gael grantiau drwy amrywiaeth o ffynonellau a chadw cronfeydd wrth gefn.

1 Mae dros 730 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru ynghyd a thri awdurdod tân ac achub a thri awdurdod parc cenedlaethol.

2 Stats Cymru, Llywodraeth Leol, Cyllid, **Cyllido gwariant refeniw crynswth, yn ôl ffynhonnell y cyllid a Cyllido'r cyfalaf a ragelir, yn ôl awdurdod** [Fel ar 28 Mehefin 2018]

## Y cyd-destun gwleidyddol

Ers sefydlu'r strwythur llywodraeth leol presennol ym 1996, mae gwleidyddion, sylwebyddion gwleidyddol a rhanddeiliaid wedi bod yn trafod a yw'r fframwaith yn gweithio'n effeithiol ac yn addas at y diben. Rhoddwyd mwy o sylw i hyn yn ystod y cyfnod o lymder yn dilyn yr argyfwng ariannol yn 2008.

Ym mis Mawrth 2011, cafwyd dau ddatblygiad nodedig a oedd yn canolbwyntio'r meddwl ar botensial diwygio llywodraeth leol. Yn gyntaf, pasiwyd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan roi pwerau i Weinidogion Cymru gyfuno dwy neu dair ardal awdurdod lleol a chyhoeddi canllawiau statudol ar gydweithredu.

Yn fuan wedyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'adolygiad Simpson' o lywodraeth leol: Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble? Gwnaeth yr adroddiad hwn 21 o argymhellion ar sut y gellid darparu gwasanaethau llywodraeth leol orau yng Nghymru, gyda ffocws sylweddol ar gydweithredu rhwng cynghorau.

Arweiniodd adolygiad Simpson yn y pen draw at lofnodi'r Compact ar gyfer Newid rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol Cymru ('Compact Simpson') ym mis Rhagfyr 2011. Bwriad hyn oedd darparu map llwybr ar gyfer ffyrdd newydd o drefnu gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol ac is-ranbarthol. Y nod oedd ffurfioli ymagwedd bartneriaeth ar draws ystod o wasanaethau'r cyngor, ac i safoni cydweithredu er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau.

Ar 18 Ebrill 2013, cyhoeddodd y Prif Weinidog ei fod yn sefydlu'r **Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus** ("Comisiwn Williams"). Mewn **datganiad yn y Cyfarfod Llawn** yn hwyrach y mis hwnnw, dywedodd y Prif Weinidog na fyddai '**unrhyw lywodraeth gyfrifol yn rhoi ar waith ddiwygiadau strwythurol mawr sy'n gostus ac yn tarfu ar wasanaethau heb achos clir, cydlynol a grymus dros wneud hynny**'.

Serch hynny, roedd yn cydnabod bod hyn bellach yn bosibilrwydd:

> Nid wyf yn credu bod unrhyw un—neu efallai fod un neu ddau yn y Siambr—sy'n credu bod cael 22 o awdurdodau lleol, gyda'u ffiniau presennol, yn briodol o ran darparu gwasanaethau llywodraeth leol ar draws Cymru. Felly, mae mater ad-drefnu llywodraeth leol yn rhywbeth y gall y comisiwn hwn ei ystyried, ac rydym yn edrych ymlaen at unrhyw gasgliadau y gallai eu gwneud yn sgil hynny.[3]

Cyhoeddodd Comisiwn Williams ei **adroddiad** ym mis Ionawr 2014, a gwnaeth **62 o argymhellion** ar ystod eang o faterion yn seiliedig ar y themâu allweddol a ganlyn:

- Cymhlethdod
- Graddfa a Gallu
- Llywodraethu, Craffu a Chyflawni
- Arweinyddiaeth, Diwylliant a Gwerthoedd
- Perfformiad a Rheoli Perfformiad

Roedd un o'r argymhellion allweddol yn ymwneud â strwythur awdurdodau lleol. Darparwyd pedwar opsiwn posibl ar gyfer uno'r 22 o awdurdodau, gyda chyfluniad newydd o naill ai 12, 11 neu 10 o awdurdodau mwy o faint.

Roedd **Llywodraeth Cymru yn ffafrio Opsiwn 1 a gynigiwyd gan Gomisiwn Williams** - yr ôl troed 12 awdurdod. Fodd bynnag, roedd Gweinidogion yn dal i fod yn agored i gyfluniadau eraill ar y pryd, gan gynnwys cyn lleied ag **8 awdurdod lleol**. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth yn 2015 gyda'r nod o hwyluso'r broses o uno awdurdodau lleol yn wirfoddol ac yn orfodol yng Nghymru.

Paratôdd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 y ffordd tuag at uno llywodraeth leol, gan gynnwys trefniadau i ganiatáu i awdurdodau uno'n wirfoddol. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft ym mis Tachwedd 2015, a fyddai wedi deddfu ar gyfer uno statudol (yn ogystal â newidiadau eraill, fel rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau). Ni aeth y Bil drafft yn ei flaen.

Ar ddechrau Etholiad y Cynulliad 2016, gwnaeth **maniffesto Plaid Lafur Cymru** ymrwymiad i greu awdurdodau lleol cryfach, mwy o faint. Cafwyd addewidion maniffesto amrywiol gan y pleidiau eraill ar ddiwygio llywodraeth leol, ond nid oedd llawer o gefnogaeth ar gyfer uniadau llawn.

Yn dilyn Etholiad Cynulliad 2016, newidiodd y rhaglen ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn ddramatig. Penodwyd Mark Drakeford AC yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol mewn Gweinyddiaeth Lafur leiafrifol.

---

3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn,** 30 Ebrill 2013 [Fel ar 29 Mehefin 2018]

Cynigiodd Ysgrifennydd newydd y Cabinet, mewn **datganiad yn y Cyfarfod Llawn**, fod y 22 o awdurdodau lleol presennol yn parhau fel '**drws blaen**' lle byddai pobl yn cael mynediad at wasanaethau allweddol. Yn lle uniadau, cynigiodd yr Ysgrifennydd y Cabinet **lefel uwch o waith rhanbarthol gorfodol a systematig**, gyda'r nod o sicrhau mwy o gydnerthedd a chynllunio a darparu gwasanaethau'n well yn rhanbarthol.

Roedd llywodraeth leol yn croesawu'r ymagwedd newydd ar y pryd, gyda **CLlLC** yn nodi bod yr 'ansicrwydd strwythurol ac ariannol hwn wedi effeithio ar weithlu llywodraeth leol yn bennaf'. Dywed fod cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu sefydlogrwydd a diogelwch a groesawir.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ar ôl ad-drefnu'r Cabinet, penodwyd Alun Davies AC yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ym mis Mawrth 2018, lansiwyd **Papur Gwyrdd Ymgynghori, Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl**. Yn y Papur, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnig edrych eto ar y potensial i greu cynghorau mwy o faint, gydag ôl troed dangosol o 10 ardal awdurdod lleol.

Roedd Llywodraeth Leol wedi eu cythruddo gyda'r cynigion newydd, gyda **CLlLC** yn nodi bod y polisi newydd wedi achosi 'anesmwythdra a dryswch'. Aeth ymlaen i ddweud:

> […] bydd awdurdodau lleol angen eglurder ac i ddeall goblygiadau tro arall mewn polisi llywodraeth mewn ardal sydd wedi gweld nifer sylweddol o adroddiadau a chomisiynau blaenorol. Dyw'r cynigion heb gael eu costio yn llawn eto ac mae'r rhan helaeth o ddadansoddi academaidd yn dod i'r casgliad bod rhaglenni ad-drefnu prin yn darparu arbedion neu'r newidiadau y gobeithir amdanynt mewn perfformiad.

Fodd bynnag, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet wedi hynny yng nghynhadledd CLlLC ar 28 Mehefin 2018 nad oedd yn datblygu uniadau gorfodol mwyach. **Dywedodd Alun Davies AC wrth arweinwyr cynghorau ei fod yn fodlon tynnu'r map ar gyfer ad-drefnu yn ôl**.

Mae gweddill y papur hwn yn darparu amserlen o ddatblygiadau diweddar ym mholisi diwygio'r sector cyhoeddus sydd wedi effeithio ar lywodraeth leol yng Nghymru.

# Amserlen o ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol

## Cyn datganoli

**1974:** ***Deddf Llywodraeth Leol 1972*** yn arwain at ad-drefnu llywodraeth leol ar raddfa fawr yng Nghymru. Mae'n creu strwythur llywodraeth leol dwy haen sy'n cynnwys wyth cyngor sir a 37 o gynghorau dosbarth, gyda phob un yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau lleol penodol.

**1996:** ***Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994*** yn arwain at ad-drefnu ymhellach. Caiff cynghorau sir a dosbarth eu diddymu, a'u disodli gan un haen o 22 o awdurdodau unedol yn eu lle. Byddai'r 22 o awdurdodau lleol yn darparu'r holl brif wasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru.

**1998:** ***Deddf Llywodraeth Cymru 1998*** *yn nodi'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer y berthynas rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu cyngor partneriaeth a chynllun ffurfiol i ategu'r berthynas hon.*

## Y Cynulliad Cyntaf (1999-2003)

### 1999

**Gorffennaf:** ***Deddf Llywodraeth Leol 1999*** yn sefydlu'r gyfundrefn 'Gwerth Gorau', sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i sicrhau gwelliant parhaus mewn gwasanaethau drwy gynhyrchu cynlluniau perfformiad a chynnal adolygiadau o'r holl swyddogaethau.

### 2000

**Mehefin:** Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Cymru fel corff ymgynghorol i hyrwyddo cydweithio rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol.

**Gorffennaf:** Y Cynulliad Cenedlaethol yn gosod ei **Chynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol,** sy'n amlinellu sut y mae'r Cynulliad yn bwriadu cynnal a hyrwyddo llywodraeth leol yng Nghymru.

**Gorffennaf:** ***Deddf Llywodraeth Leol 2000*** yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer strwythurau rheoli gwleidyddol newydd o fewn llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol Cymru yn dewis model arweinydd a chabinet, er y caiff 'pedwerydd opsiwn' ei ddatblygu wedyn yng Nghymru, gan ganiatáu i fwrdd gyda chydbwysedd gwleidyddol weithredu fel y weithrediaeth.

**Gorffennaf:** ***Deddf Llywodraeth Leol 2000*** yn gosod dyletswydd ar bob prif gyngor yng Nghymru a Lloegr i baratoi strategaeth gymuned i wella lles eu hardaloedd. Byddai paratoi a gweithredu'r strategaeth yn cynnwys y cyngor ac ystod eang o sefydliadau eraill.

### 2001

**Mehefin:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar *Raglen Cymru ar gyfer Gwella,* sy'n nodi ymagwedd y Llywodraeth tuag at gyflawni ei dyletswyddau o dan y drefn Gwerth Gorau. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar rymuso awdurdodau lleol i arwain a rheoli eu materion eu hunain a datblygu camau sy'n briodol ar gyfer amgylchiadau lleol.

### 2002

**Mawrth:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymgynghoriad ar ei datganiad polisi, ***Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol.*** Dyma'r ddogfen gyntaf lle mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei pholisïau a'i gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yn llawn ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Rhoddir pwyslais sylweddol ar hyrwyddo natur agored, partneriaeth a chyfranogiad gyda rhanddeiliaid.

## Yr Ail Gynulliad (2003-2007)

### 2003

**Hydref:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad a gomisiynwyd, ***Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol*** ('adroddiad Aberystwyth'). Mae'r adroddiad yn gwneud sawl argymhelliad ynglŷn â rôl cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, gan gynnig y dylid eu galluogi i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau drwy gytundeb â'u cynghorau sir.

## 2004

**Hydref**: Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru,** sef fframwaith strategol a gweledigaeth ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r nod o greu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy'n rhannu nodau cyffredin ac yn gweithio ar draws ffiniau swyddogaethol a sefydliadol. Ei honiad yw bod yr enillion mwyaf yn debygol o ddod o sefydliadau sy'n cyflwyno swyddogaethau cymorth a rennir.

## 2005

**Mehefin:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi *Creu'r Cysylltiadau: Gweithredu'r weledigaeth*, a oedd yn amlinellu ei chynllun gweithredu ar gyfer y pum mlynedd nesaf i weithredu'r weledigaeth *Creu'r Cysylltiadau*. Mae'r cynllun yn nodi bod y Llywodraeth yn chwilio am ddifidend o hyd at £300 miliwn y flwyddyn erbyn 2008 ac o leiaf £600 miliwn y flwyddyn erbyn 2010 drwy ffyrdd mwy effeithlon o weithio, sicrhau gostyngiadau mewn costau a gwelliannau gwasanaeth.

**Rhagfyr:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi sefydlu *Cronfa Wella Creu'r Cysylltiadau*. Byddai cyfanswm o £3 miliwn ar gael ym mhob un o'r tair blynedd ariannol ddilynol i gefnogi gweithio ar y cyd drwy brosiectau gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Nod y gronfa oedd cynorthwyo prosiectau sy'n gwella gwasanaethau cyhoeddus ac ysgogi newid drwy arloesedd.

## 2006

**Ionawr:** Sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel is-bwyllgorau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yng Ngogledd, Canol, De-ddwyrain a De-orllewin Cymru. Wedi'u sefydlu i ddatblygu ystod o brosiectau cydweithredol, mae eu haelodau'n cynnwys arweinwyr a phrif weithredwyr pob un o'r cynghorau etholiadol a swyddogion CLlLC. Gallent gynnig gwasanaethau cydweithredol a gwasanaethau a rennir ond nid oedd ganddynt bwerau dirprwyedig, a'r cynghorau unigol fydd yn gwneud y penderfyniad i gymryd rhan mewn prosiectau.

**Ebrill:** CLlLC yn cyhoeddi *Effeithlonrwydd a Chydweithio mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru*. Yn gyffredinol, mae'n cydnabod y manteision y gellir eu sicrhau o gydweithio fel yr argymhellir yn *Creu'r Cysylltiadau*, ond mae'n mynegi rhybudd ynghylch yr anawsterau gwirioneddol a chanfyddedig o weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus.

**Gorffennaf:** ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** yn ailddatgan y gofyniad i sefydlu a chynnal *Cyngor Partneriaeth Cymru*, sydd bellach yn cyfarfod oddeutu deirgwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd bellach yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi aelodau'r Cyngor.

**Gorffennaf:** Cyhoeddir yr adroddiad Beecham hir ddisgwyliedig **-** ***Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd.*** Gan edrych ar y sbectrwm cyfan o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae'n cymeradwyo strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio, gan ddod i'r casgliad y gellid sicrhau bod y model sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn seiliedig ar gydweithio yn gweithio. Mae hefyd yn glir y byddai **ad-drefnu mawr o ran strwythurau yn ymyriad** o ymdrin â rhai o'r rhwystrau sylfaenol i gyflawni hyn.

**Tachwedd:** Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiad Beecham drwy gyhoeddi ***Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.*** Mae'n canolbwyntio ar yr angen i integreiddio gwasanaethau cyhoeddus yn well a sicrhau mwy o gysondeb mewn perfformiad. Mae hefyd yn cynnwys cynigion i sefydlu *Byrddau Gwasanaethau Lleol* a *Chytundebau Gwasanaethau Lleol* i hyrwyddo cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus.

### 2007

**Mawrth:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Rhannu Cyfrifoldeb: Cyfraniad Llywodraeth Leol at wella bywydau pobl.** Mae'n casglu ac yn ailadrodd nodau ac amcanion polisi'r Llywodraeth mewn perthynas â llywodraeth leol, ac yn nodi'r heriau i lywodraeth leol yn seiliedig ar adroddiad Beecham.

## Y Trydydd Cynulliad (2007-2011)

### 2007

**Ionawr:** **Lansio ymgynghoriad yn gwahodd barn ar rôl a swyddogaethau y Byrddau Gwasanaethau Lleol a gynigwyd.** Wedi'u cynllunio i ddwyn ynghyd y prif ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardaloedd hynny gyda'r nod o sicrhau mwy o gydweithio i wella problemau lleol.

**Rhagfyr:** Lansio **Prosiect Gwasanaeth a Rennir De-ddwyrain Cymru**, y mae 10 o awdurdodau lleol yn cytuno arno mewn ymgais i arbed £45 miliwn dros 10 mlynedd drwy gydweithio a thrwy rannu swyddogaethau ôl-swyddfa.

**Ebrill:** Llywodraeth Cymru yn cyflwyno *Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol* newydd, gan nodi sut y bydd yn ystyried buddiannau llywodraeth leol ym mhob agwedd ar ei gwaith. Yn sylfaenol mae'n diwygio'r cynllun a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2000 er mwyn adlewyrchu'r agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus newydd yn well.

**Mehefin:** ***Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009*** yn rhoi effaith statudol i nifer o argymhellion adroddiad Beecham. Mae'n ceisio gwneud awdurdodau lleol yn fwy effeithiol drwy ddiddymu'r gyfundrefn Gwerth Gorau a gosod dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau i wella gwasanaethau drwy gynllunio strategol.

**Gorffennaf:** Canolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol ym Mhrifysgol Caerdydd yn cyhoeddi ***Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol (Adroddiad Interim Cyntaf)*****.** Comisiynwyd y Ganolfan, mewn partneriaeth â Shared Intelligence, gan Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad annibynnol o'i pholisi ar gyfer llywodraeth leol am bedair blynedd rhwng 2008 a 2012.

## 2008

**Rhagfyr:** Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi ei adroddiad ar ei **ymchwiliad fewn i Fyrddau Gwasanaethau Lleol**. Tra ei bod yn parhau yn ddyddiau cynnar i Fyrddau Gwasanaethau Lleol, fe wnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid ar y Byrddau. Roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar feysydd o risg i fynd i'r afael â nhw a mesurau ataliol i'w cymryd.

## 2010

**Mawrth**: Cyhoeddir bod **Prosiect Gwasanaeth a Rennir De-ddwyrain Cymru** wedi cwympo ac na fydd yn mynd rhagddo ar ôl i rai awdurdodau dynnu allan o'r prosiect, tra bod eraill wedi methu â chytuno ar ffordd ymlaen.

**Mawrth:** Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi i feithrin arloesedd a chydweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus fel ymateb i'r sefyllfa ariannol. Y **Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi** yn dwyn ynghyd arweinwyr o Lywodraeth Cymru, y GIG a llywodraeth leol i ddatblygu nifer o ffrydiau gwaith, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu lle bydd ymagwedd gwasanaethau cyhoeddus gyfan yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

**Medi:** Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn cyhoeddi adolygiad o lywodraeth leol yng Nghymru i edrych ar beth y mae angen ei ddarparu ble. Dywed fod 22 o awdurdodau'n darparu'r un gwasanaethau ar hyn o bryd a bod angen ystyried a oes gan awdurdodau y capasiti i wneud hyn yn y sefyllfa economaidd bresennol.

### 2011

**Mawrth**: Pasio **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.** Mae'n cynnwys darpariaethau newydd ar gyfer strwythurau rheoli gwleidyddol awdurdodau lleol (gan mai dim ond dewis rhwng arweinydd a chabinet neu faer etholedig a system cabinet sydd erbyn hyn). Mae hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru gyfuno dwy neu dair ardal awdurdod lleol.

**Mawrth**: Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi **Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?** ('adolygiad Simpson'). Mae'n cynnwys 21 o argymhellion yn nodi bod dyblygu swyddogaethau a gwasanaethau 22 o weithiau mewn gwlad o faint Cymru yn creu dyblygu dianghenraid. Er nad yw'n galw am ad-drefnu nac am gyfuno awdurdodau, mae'n argymell ffyrdd newydd o drefnu gwasanaethau ac yn galw am gydweithredu pellach rhwng awdurdodau mewn llawer o feysydd gwasanaeth.

## Y Pedwerydd Cynulliad (2011-2016)

### 2011

**Mai**: Maniffesto etholiad y Blaid Lafur yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu comisiwn annibynnol i adolygu trefniadau llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Gorffennaf:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion am ei rhaglen ddeddfwriaethol pum mlynedd. Yn ystod sesiwn 2011-2012, dywed y Llywodraeth ei bod yn bwriadu cyflwyno'r *Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru)* a fydd yn hwyluso'r broses o awdurdodau lleol yn gwneud penodiadau ar y cyd; yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried gwneud hynny ar gyfer swyddi o lefel benodedig; ac yn creu pwerau i Archwilydd Cyffredinol Cymru arolygu ac adrodd ar gydymffurfiad â'r ddyletswydd hon. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu ymyrryd mewn achosion o fethiant.

**Gorffennaf:** Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, Carl Sargeant AC yn cyhoeddi mewn ***datganiad*** ei fwriad i symud tuag at strwythur cyffredin ar gyfer alinio cydweithrediad gwasanaethau cyhoeddus, yn seiliedig ar y ffiniau presennol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau heddlu. Mae hefyd yn nodi mai Cyngor Partneriaeth Cymru fyddai'n gyfrifol am y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ar gyfer diwygio'r sector cyhoeddus.

**Medi:** Cyhoeddi ***Rhaglen Lywodraethu*** Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn cadarnhau y cyflwynir *Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru)*, yn ogystal â chanllawiau statudol yn nodi'r hyn y bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddisgwyl o ran mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus.

**Medi:** Sefydlwyd Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i annog diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Gan weithio gyda Chyngor Partneriaeth Cymru, mae'n cynnwys uwch-arweinwyr sy'n cynrychioli gwasanaethau cyhoeddus ac ardaloedd daearyddol ledled Cymru, ac yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog llywodraeth leol. Ei nod yw darparu arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer cydweithredu, gan ysgogi cyflymder gwelliant mewn gwasanaethau i ddinasyddion Cymru.

**Rhagfyr:** Caiff ***Compact Simpson*** ei lofnodi rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Ei nod yw dod o hyd i ffyrdd newydd o drefnu gwasanaethau drwy ystyried yr hyn y gellir ei ddarparu ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu is-ranbarthol. Mae'n cynnwys nifer o gamau penodol i symud cydweithredu ymlaen i'r cam nesaf mewn amrywiol wasanaethau llywodraeth leol. Yn ganolog i'r agenda hon mae Ôl Troed Cydweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n ceisio safoni cydweithredu yn seiliedig ar chwe rhanbarth penodol yng Nghymru: Gogledd Cymru; Canolbarth a Gorllewin Cymru; Bae'r Gorllewin; Caerdydd a'r Fro; Cwm Taf; a Gwent.

## 2012

**Ionawr:** Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn **gwneud datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol** gan ddatgan ei fod wedi ailystyried yr angen i gyflwyno *Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru)*. Dywed ei fod wedi cael sicrwydd bod llywodraeth leol wedi ymrwymo i'w agenda gydweithredu ac felly y byddai'r ddeddfwriaeth honno **ddim yn ofynnol** ar y cam hwn.

**Gorffennaf:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad ar ***Berfformiad Gwasanaeth Awdurdodau Lleol*** *ar gyfer y cyfnod 2010-11*. Mae'n nodi ac yn cymharu gwybodaeth am berfformiad ar gyfer pob awdurdod ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr amgylchedd, trafnidiaeth, hamdden ac adloniant.[4]

**Medi:** CLlLC yn cyhoeddi ei **Phecyn Cymorth ar gyfer Cydweithio,** a fwriedir fel canllaw i awdurdodau lleol sy'n dymuno dechrau ar gydweithredu a chydweithio. Mae hefyd yn ymdrin â phroblemau technegol mawr a wynebir gan brosiectau cydweithredol.

**Hydref:** Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn cael ei lansio ar reoliadau a chanllawiau statudol sy'n galluogi dau neu ragor o awdurdodau lleol i sefydlu pwyllgorau trosolwg a chraffu ar y cyd o dan ***Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011***. Mae'r broses hon yn arwain at Offeryn Statudol Cymru: ***Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013.***

**Hydref:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi sefydlu *Cronfa Gydweithredu Ranbarthol* gwerth £10 miliwn fel rhan o setliad llywodraeth leol ar gyfer 2013-14. Bwriad y gronfa yw helpu i oresgyn rhwystrau i gydweithredu drwy fod yn gatalydd a thrwy ddarparu cyllid cychwynnol i roi prosiectau cydweithredu ar waith o fewn llywodraeth leol.

**Hydref:** Cynhelir cyfarfod cyntaf ***Cyngor Partneriaeth diwygiedig Cymru.*** Mae awdurdodau lleol bellach yn cael eu cynrychioli gan arweinydd o bob un o'r chwe maes ar gyfer cydweithredu, gyda'r bwriad o'r Cyngor yn darparu'r arweinyddiaeth a'r atebolrwydd gwleidyddol ar gyfer cydweithredu a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

**Rhagfyr:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol ***Cydamcanu – Cydymdrechu*** gyda'r nod o leihau natur gymhleth y weinyddiaeth o wasanaethau cyhoeddus. Roedd awdurdodau lleol yn fod i lunio eu Cynlluniau Integredig Sengl cyntaf erbyn mis Ebrill 2013. Mae'r rhain yn integreiddio sawl cynllun statudol ar wahân yr awdurdodau (gan gynnwys strategaethau cymunedol, cynlluniau plant a phobl ifanc, strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles a chynlluniau diogelwch cymuned) mewn un ddogfen.

4 Data Cymru (Uned Ddata –Cymru yn flaenorol) sydd bellach yn cyhoeddi **adroddiadau** a data perf formiad yn ôl awdurdod lleol.

## 2013

**Chwefror:** Mewn *cylchlythyr i gynghorwyr*, dywed y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau fod cynnydd rhesymol wedi bod ar weithredu argymhellion Adroddiad Simpson ond bod angen cymryd camau nawr i wneud cynnydd cyflymach. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog hefyd yn pwysleisio mai bwriad Compact Simpson yw darparu patrymau gwell ar gyfer darparu gwasanaethau ac nad yw'n ymwneud ag ad-drefnu llywodraeth leol.

**Ebrill:** Y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ei fod yn sefydlu **Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus** i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus effeithlon, effeithiol a hygyrch.

**Medi**: Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad: ***Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, 2007-2011*** sy'n seiliedig ar adroddiad interim gan y Ganolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Ranbarthol ym Mhrifysgol Caerdydd.

## 2014

**Ionawr:** Comisiwn Williams yn cyhoeddi ei **adroddiad**, sy'n trafod gwahanol agweddau ar sut y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Daw'r Comisiwn i'r casgliad bod rhai awdurdodau lleol yn **rhy fach i berfformio'n effeithiol**. Felly, mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylai'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru gael eu huno i greu 10, 11 neu 12 o unedau. Mae'r adroddiad yn gwneud cyfanswm o 62 o argymhellion.

**March**: Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanfyddiadau yn ei hadroddiad – ***Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru.*** Gwnaethpwyd 24 o argymhellion, gan gynnwys gwell cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a grwpiau cydraddoldeb er mwyn sefydlu cynllun cysgodi/mentora; i sefydlu rôl "Hyrwyddwyr Aelodau" ym mhob cyngor er mwyn annog cyfranogiad, ac ymgyrch wedi ei gydlynu i hyrwyddo rôl a gwaith cynghorwyr.

**Gorffennaf:** Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiad Comisiwn Williams gan gyhoeddi ei Bapur Gwyn: '***Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol'***. Mae'r cynigion yn cynnwys lleihau nifer yr awdurdodau lleol ynghyd a gwella cydweithio a phartneriaeth rhyngddynt..

**Medi:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Gwahoddiad i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol**. Mae Llywodraeth Cymru yn galw hyn yn 'brosbectws' ac yn gwahodd awdurdodau lleol i ddatgan diddordeb mewn uno'n wirfoddol erbyn 28 Tachwedd 2014.

**Hydref:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn ar y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus. Rôl y Comisiwn yw edrych ar faterion staffio sy'n gysylltiedig â'r broses uno.

**Tachwedd:** **Adroddiad** gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) yn awgrymu y gallai'r costau pontio o uno awdurdodau lleol amrywio rhwng £160 miliwn a £268 miliwn. Gellid adennill arbedion blynyddol o £65 miliwn ar ôl dwy i dair blynedd.

**Rhagfyr:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r ymatebion i'w Phapur Gwyn cychwynnol ar gyfer mis Gorffennaf 2014, gan gynnwys **dogfen gryno**.

## 2015

**Ionawr:** Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r **Bil Llywodraeth Leol (Cymru)** (h.y. y Bil cyntaf). Mae'r Bil yn galluogi awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno ceisiadau llwyddiannus i uno'n wirfoddol, drwy reoliadau. Mae'r Bil hefyd yn hwyluso gwaith paratoi ar gyfer uno yn y dyfodol, unwaith y bydd yr ardaloedd awdurdod lleol newydd wedi'u nodi mewn ail Fil.

**Ionawr:** Cyhoeddodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ei fod wedi penderfynu **gwrthod pob un o'r tri datganiad o ddiddordeb** ar gyfer uno'n wirfoddol. Y rheswm a roddodd am hynny oedd nad oeddent yn bodloni'r meini prawf yn y prosbectws a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014.

**Ionawr:** Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Prif Weinidog yn dweud wrth **Gyfarfod Llawn** y Cynulliad mai hoff ddewis Llywodraeth Cymru o hyd ar gyfer uno yw'r dull 12 awdurdod sydd wedi'i nodi yn adroddiad y Comisiwn Williams. Ond mae'r Prif Weinidog hefyd yn cyfaddef nad yw hyn yn 'derfynol'. O'r herwydd, mae'n gwahodd arweinwyr y pleidiau gwleidyddol eraill i gael trafodaethau gydag ef ar y map llywodraeth leol terfynol.

**Chwefror:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Papur Gwyn arall ar Ddiwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.** Mae'n cynnwys cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio y tu hwnt i newid strwythurol. Mae'n cynnwys camau i geisio lleihau cost llywodraeth leol; gwella amrywiaeth cynghorwyr; gwella perfformiad; a rhoi mwy o lais i gymunedau yn y modd y darperir gwasanaethau lleol.

**Chwefror:** Mae **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** y Cynulliad yn dechrau ei waith yn craffu ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf.

**Ebrill:** Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad: **Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru.** Roedd yr adroddiad yn adolygu cadernid trefniadau rheoli a chynllunio i gefnogi cydnerthedd ariannol mewn awdurdodau lleol. Mae'n dod i'r casgliad bod Cynghorau dan bwysau ariannol sylweddol ac y bydd angen iddynt wella cynllunio ariannol strategol i ddiogelu eu cydnerthedd ariannol.

**Mehefin:** **Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyfluniad dewisol ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru.** Er mai Opsiwn 1 a gynigiwyd gan Gomisiwn Williams (12 awdurdod lleol) oedd ei hoff ddewis, roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn agored i gyfluniadau eraill, gan awgrymu y gallai fod cyn lleied ag 8 awdurdod lleol erbyn diwedd y broses.

**Mehefin:** Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn dweud wrth Gynhadledd Flynyddol CLILC bod diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn hanfodol er mwyn diogelu gwasanaethau'r rheng flaen a bod cyfrifoldeb erbyn hyn ar bob un ohonom sy'n poeni am ddyfodol llywodraeth leol i weithio drwy'r cynigion hyn gyda'n gilydd a sicrhau diwygiad strwythurol hanfodol.

**Mehefin:** Cwmni archwilio, treth ac ymgynghori arbenigol, KPMG, yn cyhoeddi adroddiad, **Awdurdodau Lleol Cymru - Adolygiad o Gostau Gweinyddol** a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn canfod cyfle sylweddol i wella perfformiad swyddogaethau gweinyddol, gan ostwng gwariant gweinyddol gros o £471 miliwn i £320 miliwn o bosibl.

**Medi:** Ar 4 Medi 2015, gwnaeth y deg awdurdod lleol ym Mhrifddinas Ranbarth Caerdydd[5] gais i Lywodraeth y DU er mwyn cychwyn trafodaethau ar gyfer Bargen Ddinesig hyd at £1 biliwn. Cytundebau rhwng Llywodraeth y DU a dinas neu ranbarth yw Bargeinion Dinesig, yn trosglwyddo pwerau i wneud penderfyniadau a buddsoddi mewn prosiectau blaenoriaeth yn eu hardaloedd er mwyn hybu twf economaidd. Mae bargeinion tebyg wedi mynd yn eu blaen ar gyfer Dinas-ranbarth

5 Y deg awdurdod ym Mhrifddinas Ranbarth Caerdydd: Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Casnewydd.

Bae Abertawe a thrwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**Tachwedd:** Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyhoeddi'r **Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) ("y Bil drafft") ynghyd â dogfennau ymgynghori.** Amcan y Bil drafft oedd cwblhau'r rhaglen o uno awdurdodau lleol a gosod fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad ac elfennau cyllid Awdurdod Lleol. O dan y cynnig, byddai'r 22 o gynghorau'n cael eu huno yn 8 neu 9 awdurdod mwy o faint.

**Rhagfyr:** Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cytuno i ymgymryd â gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil drafft, gan gynnwys **ymgynghoriad** cyhoeddus.

## 2016

**Mawrth:** Cyhoeddodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ei adroddiad ar y **Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft.** Ynddo, cynghorodd y Pwyllgor y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd i roi ystyriaeth bellach i gostau disgwyliedig uno a'r disgwyliad i awdurdodau lleol dalu'r costau cychwynnol hynny.

**Mawrth:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Adolygiad o'r dystiolaeth: Systemau cyllid llywodraeth leol, trethi lleol a dyrannu adnoddau.** Mae'r adolygiad yn archwilio'r sylfaen wybodaeth ac ymchwil bresennol i sefydlu opsiynau posibl ar gyfer modelau ariannu a chyllid yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.

**Mawrth:** Comisiwn Annibynnol Materion Ariannol Llywodraeth Leol Cymru, a sefydlwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol: **Uchelgais ar gyfer newid: Anelu'n uwch.** Ymhlith ei argymhellion mae grantiau penodol presennol i'w cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw, i'r Grant presennol gael ei rewi a chyflwyno setliadau grant treigl tair blynedd dangosol, yn ogystal â bod awdurdodau lleol yn cadw ardrethi annomestig yn eu cyfanrwydd.

## Y Pumed Cynulliad (2016- )

### 2016

**Ebrill:** Roedd **maniffesto etholiad Llafur Cymru** ar gyfer y Pumed Cynulliad yn cynnwys ymrwymiad i greu awdurdodau lleol cryfach, mwy o faint, yn ogystal â chynghorau tref a chymuned cryfach, gan arwain at ddatganoli pwerau o Fae Caerdydd.

**Awst:** Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad: **Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng  Nghymru 2015-16**. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar berfformiad ariannol presennol y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ôl Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond yn cael anawsterau'n datblygu ac yn darparu'r arbedion a'r newidiadau i wasanaethau ar y cyflymder sy'n ofynnol i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.

**Hydref:** Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, yn nodi **ffordd newydd ymlaen i lywodraeth leol yng Nghymru**. Ni fyddai'r cynigion newydd yn newid nifer bresennol yr awdurdodau lleol, ond byddai'n cefnogi uniadau gwirfoddol, ynghyd â lefel uwch o waith rhanbarthol gorfodol a systematig.

**Tachwedd:** Mark Drakeford AC yn nodi **amserlen** ar gyfer 'sgyrsiau' ar ddiwygio llywodraeth leol. Roedd gan awdurdodau lleol ddeunaw mis i baratoi ar gyfer y dewisiadau mwy anodd sydd i ddod.

**Tachwedd**: Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i gasglu'r **Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol**. Defnyddiwyd y dangosyddion hyn i fesur perfformiad awdurdodau lleol ar lefel genedlaethol a chanolbwyntio ar flaenoriaethau strategol allweddol. Roedd rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gasglu a chyhoeddi data ar gyfer pob un o'r dangosyddion hyn, fel y nodir yng **Ngorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012**. Cafodd y gorchymyn hwn ei **ddirymu** gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

### 2017

**Ionawr:** Lansiwyd ymgynghoriad ar y Papur Gwyn - ***Diwygio Llywodraeth Leol: 'cadernid ac adnewyddiad'*** yn ceisio barn ar y cynigion ar gyfer gwaith rhanbarthol gorfodol a systematig, gan fynd i'r afael â diwygio etholiadol a materion

gweithlu. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn nodi y bydd y trefniadau rhanbarthol newydd yn dod â chynghorau at ei gilydd i weithio'n fwy effeithiol er lles pobl a'u cymunedau. Daeth yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ben ar 11 Ebrill 2017.

**Ionawr:** Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn amlinellu ei fwriad mewn **datganiad ysgrifenedig** i ddiwygio'r system cyllid llywodraeth leol yng Nghymru, gan nodi mai ei flaenoriaethau ar gyfer diwygio yw sefydlu system gyllid drwy "[g]ryfhau cadernid ein hawdurdodau lleol, sicrhau tegwch i ddinasyddion a busnesau, a hefyd sicrhau bod cyllid cynaliadwy ar gael i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol". Ymysg pethau eraill, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi mecanweithiau dosbarthu a threthi lleol fel meysydd i'w hystyried.

**Mai:** ***Cynhaliwyd Etholiadau Cyngor Lleol 2017***. Mae Mark Drakeford AC yn llongyfarch cynghorwyr a etholwyd i swyddfa, gan alw ar bawb i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynlluniau diwygio. Mae'n ailddatgan ei ymrwymiad i symud ymlaen â gwaith rhanbarthol gorfodol, gan nodi bod y cyhoedd yng Nghymru wedi clywed sôn am ddiwygio llywodraeth leol ers blynyddoedd lawer ac mae'r amser wedi dod i wneud penderfyniad parhaol.

**Mehefin:** Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad: ***Cynllunio Arbedion mewn Cynghorau yng Nghymru.*** Mae'r adolygiad yn ystyried pa mor dda y mae cynlluniau arbedion yn cefnogi cydnerthedd ariannol Cynghorau yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod cynllunio ariannol tymor canolig yn effeithiol ar y cyfan, ond mae diffygion mewn cynllunio arbedion yn cyflwyno risgiau na fydd rhai cynghorau yn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen.

**Gorffennaf:** **Lansio'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn** ynghylch diwygio etholiadol mewn llywodraeth leol, sy'n cynnwys cynigion i ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed mewn etholiadau cyngor lleol, pleidleisio electronig a chynrychiolaeth gyfrannol ymhlith eraill. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Hydref 2017.

**Medi:** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel a sefydlwyd i **adolygu dyfodol Cynghorau Cymuned yng Nghymru**. Cyd-gadeirir y panel gan gyn-Aelodau Cynulliad, Gwenda Thomas a Rhodri Glyn-Thomas. Bwriad yr adolygiad yw archwilio rôl bosibl cynghorau cymuned, diffinio'r model neu'r strwythur mwyaf priodol i gyflawni'r rôl hon, ac ystyried sut y gellid defnyddio'r model hwn ledled Cymru.

**Hydref:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **diweddariad ynghylch ei chynigion ar gyfer diwygio ariannol mewn llywodraeth leol**.

**Tachwedd:** Ad-drefnu'r Cabinet yn arwain at Alun Davies AC yn cymryd portffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Rhagfyr:** Lansio **ymgynghoriad** ar gynigion i drosglwyddo gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Yn ôl Llywodraeth Cymru, byddai hyn yn sefydlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o fewn ôl troed rhanbarthol de-ddwyrain Cymru ar gyfer darpariaeth gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan ategu›r bartneriaeth economaidd ac addysg bresennol.

## 2018

**Chwefror:** **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** yn pennu cynnydd o 1.49 y cant i gyflog sylfaenol cynghorwyr, sydd bellach yn £13,600.

**Chwefror:** Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ateb cwestiynau yn y **Cyfarfod Llawn** ar ddiwygio Llywodraeth Leol, gan nodi nad yw llywodraeth leol yn dymuno bwrw ymlaen â chynigion blaenorol Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer cydweithio systematig gorfodol ar lefel rhanbarthol.

**Mawrth:** Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn lansio **Papur Gwyrdd yr Ymgynghoriad, Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl.** Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 12 Mehefin 2018. Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig edrych eto ar greu cynghorau mwy o faint, gydag opsiynau posibl yn cynnwys uniadau gwirfoddol neu raglen uno cynhwysfawr. **Mae BBC Cymru yn adrodd bod Arweinwyr Cynghorau wedi gwrthdaro ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**.

**Mawrth:** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **bod Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael ei ddirwyn i ben**, gyda Chyngor Partneriaeth y Gweithlu yn cymryd drosodd y rhaglen waith.

**Mehefin:** Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi yng Nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 28 Mehefin, **fel yr adroddwyd gan BBC Cymru,** na fydd 22 o gynghorau lleol Cymru yn cael eu gorfodi i uno. Dywedodd hefyd ei fod yn hapus i dynnu'r map ar ad-drefnu, a oedd yn cynnig 10 ardal cyngor newydd, yn ei ôl.

**Gorffennaf**: Y Prif Weinidog yn cyhoeddi'r **Rhaglen Ddeddfwriaethol** am y 12 mis nesaf. Mae'r rhaglen yn cynnwys Bil Llywodraeth Leol. Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i ddiwygio trefniadau etholiadol awdurdodau lleol, sy'n cynnwys ymestyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 mlwydd oed. Yr un prynhawn, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus **ddatganiad**, gan nodi fod ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyrdd wedi "awgrymu bod awydd ymhlith llywodraeth leol i gydweithio i fwrw ymlaen ag uno gwirfoddol ac i gynyddu a gwella gweithio rhanbarthol".

# Lincs a darllen pellach

- **Tudalennau gwe Llywodraeth Cymru ar wella gwasanaethau cyhoeddus (**sy'n cynnwys cyhoeddiadau, strategaethau, polisïau a data diweddaraf Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru).
- **Tudalennau gwe Llywodraeth Cymru ar lywodraeth leol** (sy'n cynnwys gwybodaeth am Gyngor Partneriaeth Cymru, Cynghorau Cymuned a Thref a chyllido llywodraeth leol).
- **Tudalennau gwe Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol**
- **Tudalennau cyhoeddiadau Swyddfa Archwilio Cymru**
- **Cyhoeddiadau'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru** (Archif o gyhoeddiadau gwasanaethau cyhoeddus)
- **Cyhoeddiadau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (**Olynydd y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru)
- **Click on Wales** (archif o erthyglau llywodraeth leol)

- **Andrews, R. ac S. Martin (2010) Regional Variations in Public Service Outcomes: The Impact of Policy Divergence in England, Scotland and Wales Regional Studies.**
- **Martin S a Webb A (2009) Citizen-centred' public services: contestability without consumer-driven competition?, Public Money and Management.**
- Curtice, J. a Heath, O. (2009) *Do people want choice and diversity of provision in public services?* yn Park, A.  et al (golygyddion) (2009) ***British Social Attitudes: The 25th Report, London: Sage***
- Bristow G, Entwistle T, Hines F a Martin S (2009) **New spaces for inclusion? Lessons from the 'three-thirds' partnerships in Wales**, International Journal of Urban and Regional Research 34 (2) tt. 903-921



